

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 16 o Fai 2017

Presennol: Cyng. Gwilym O. Jones (Cadeirydd)
Cyng. Gordon Owen
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Beryl Salisbury
Cyng. Einir Thomas
Cyng. Dyfed Williams

Ymddiheuriadau: Cyng. Gwynfor Lloyd Jones

2. **Cofnodion Cyfarfod Blynyddol - 17eg o Fai 2016** - derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir.

Nodwyd bod y gwaith ar adnewyddu'r rhedfeydd yn Camp falî yn parhau a bod y prosiect wedi bod yn llai o aflonyddgar na'r disgwyl. Roedd pryder bod y loriau yn difetha wyneb y ffordd a bod angen rhoi sylw i'r bont wrth Treflesg. Penderfynwyd gofyn i'r Adran Briffyrdd, CSYM i gynnal arolygiad llawn.

3. **Ethol Swyddogion 2017 – 2018**

Cadeirydd - Gyda Cyng. Einir Thomas yn cynnig a Cyng. Gordon Owen yn eilio fe etholwyd Cyng. Dyfed Williams yn Gadeirydd.

Is-gadeirydd - Gyda Cyng. Einir Thomas yn cynnig a Cyng. William Victor Owen yn eilio fe etholwyd Cyng. Beryl Salisbury yn Is-gadeirydd.

Cafwyd cadarnhad ysgrifenedig gan bob aelod oedd yn bresennol eu bod yn derbyn eu seddi ar ôl yr etholiadau a'u bod yn ymrwymo i barchu'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Mai 2016.

Cymerodd y Cyngorydd Dyfed Williams drosodd fel cadeirydd.

Rhoddyd diolch i Cyng. Gwilym O. Jones am ei waith caled yn y flwyddyn flaenorol.

4. **Datganiad o ddiddordeb:** - Cyng. Einir Thomas - diddordeb personol yn gais cynllunio 8.1

Llofnod.....Cadeirydd.....

5. Cofnodion cyfarfod 21 o Fawrth 2017:

Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. William Victor Owen, eilio Cyng. Gordon Owen.)

6. Materion yn codi o'r cofnodion:

1. Llochesi fws: - adroddodd y clerc fod yr yswirwyr wedi cytuno y byddai'r difrod i'r ddau lloches yn cael ei drin fel un hawliad, ond roddent yn gofyn am luniau, manylion pellach am ddyddiad y difrod, dau amcangyfrif ar gyfer trwsio ac ati.
2. Cae chwarae:- Yr ymateb a gafwyd gan GMS ynglŷn â'r cwynion am y toriadau oedd eu bod pob amser yn eu casglu ac awgrymwyd mai'r plant oedd yn eu chwalu. Nid dderbynwyd adroddiad ar gyflwr y cyfarpar chwarae eto.
3. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion: - nodwyd bod yna bedair sedd wag ar ôl yr etholiad felly byddai'r clerc yn cychwyn y broses o drïo eu llenwi yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Cyngor Sir.

7. Cytundebau a Thelerau:

Mr F. Rowlands - cytunwyd y dylai'r cytundeb aros yr un fath.

Y Clerc - cytunwyd y dylai'r cyflog y clerc barhau i fod yn gysylltiedig â graddfeydd cyflog y Llywodraeth Lleol fel y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

8. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:

1. Ceisiadau Cynllunio 32C147A/ENF - Fferam, Caergeiliog
Cais llawn ar gyfer cadw amryw ddatblygiadau marchogaeth preifat - penderfynwyd gofyn am fwy o wybodaeth gan y Cyngor Sir.
2. Penderfyniadau Cynllunio 32C202 2 The Poplars, Caergeiliog
Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu – cytunwyd.

9. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn: - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:

1. Prosiect Wylfa Newydd
2. Fforwm Cyswllt Cyngor Tref a Chymuned – cyfarfod 7 o'r gloch 12 .6.2017
3. Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad mis Ebrill 2017.

Llofnod.....Cadeirydd.....

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

10. Materion Ariannol

Yn y banc ar 16.5.2017, Cyfrif Cyfredol £11,640.47, Cyfrif Cadw £3921.50

11. Taliadau i'w gwneud

Cyflog y clercc (Ebrill)	£179.92	HMRC (TWE)	£44.98
AON	£1770.76	GMS (Archeb 0432)	£91.20

Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Gordon Owen.)

12. Dogfennau Statudol

Roedd y Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol angen eu cyfieithu ac yn dilyn hynny byddai'r clercc yn edrych ar yr Asesiadau Risg a chreu protocol i ddelio â chwynion a Polisi Cyfryngau Cymdeithasol.

13 Pwyllgor Safonau - dogfennau

Cadarnhawyd bod gan bob aelod gopi o'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Mai 2016, ynghyd â'r:

Nodyn Briffio'r Pwyllgor Safonau ar Fuddiannau Personol a Niweidiol.

Nodyn Briffio'r Pwyllgor Safonau ar Datganiad a Chofrestru Buddiannau yn y Cynghorau Tref a Chymuned.

Adroddiad a roddwyd i'r Pwyllgor Safonau ar adolygiad a gynhaliwyd ar y gofrestr o fuddiannau aelodau mewn sampl o'r Cynghorau Tref a Chymuned.

14. Gohebiaeth Eraill: fe nodwyd y canlynol

1. Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
2. National Development Framework for Wales - Newsletter April 2017 (copi Saesneg yn unig)
3. Bwletin Un Llais Cymru Ebrill 2017
4. Llythyr oddi wrth Anthony Barrett, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol.

Llofnod.....Cadeirydd.....

15. Unrhyw fater arall:

1. Cytunwyd i ofyn i Mr Craig Redmond dacluso'r ardd ar safle cof golofn Mathew Bach.
2. Nodwyd bod y Iorweth Arms wedi trefnu Gŵyl Madam Wen 2017 ar gyfer y penwythnos Gŵyl y Banc a bod eu gweithgareddau yn cynnwys taith gerdded i lawr at Ogor Madam Wen. Gofynnwyd i'r clerwr sicrhau bod y llwybr yn cael ei dorri.
3. Adroddwyd bod llwybr Rhif 5 o Tyn Rhos angen ei dorri.

16. Cyfarfod Nesaf – 20fed o Fehefin 2017

Llofnod.....Cadeirydd.....